

Llythrennedd ac Iaith

5 i 9

# Diodydd Difyr a Phasteiod

- Testunau cyfarwyddiadol

## Trosolwg

Bydd y gweithgaredd creadigol yma'n helpu i ymgorffori nodweddion testunau cyfarwyddiadol mewn ffordd hwyliog. Bydd yn annog siarad ar gyfer ysgrifennu a hefyd yn cysylltu â llawer o feysydd cwricwlaidd eraill.

## Adnoddau

- Mwd
- Dŵr
- Pethau amrywiol i fynd ar y top fel glaswellt, petalau neu gerrig mân.
- Cwpanau
- Rhidyllau
- Powlen gymysgu
- Ffon neu lwy
- Hambwrdd neu fwrdd fflat
- Byrddau gwyn/clipfyrddau bach a phensiliau

## Gweithgaredd

1. Rhannwch y rysáit pastai mwd enghreifftiol gyda'r disgyblion ac arddangos sut i'w gwneud.
    - Rhidyllwch y baw i'r powlen gymysgu i wneud yn siŵr ei fod yn llyfn a heb unrhyw dywod, graean neu gerrig.
    - Ychwanegwch y cwpan o ddŵr yn raddol at y mwd a throi'r cymysgedd.
    - Dylai'r baw a'r dŵr gyfuno i wneud toes du gludiog. Rholiwch hwn yn bêl.
    - Pwyswch y bêl toes allan ar hambwrdd neu fwrdd yn gylch fflat.
    - Addurnwch y pastai gyda'ch dewis o bethau fel glaswellt, petalau neu gerrig mân.
    - Gadewch y pastai i bobi'n galed – yn yr heulwen yn ddelfrydol a'i gweini gyda phaned o sudd gardd cartref.
2. Rhowch amser i arbrofi a chwarae gyda'r adnoddau i greu pasteiod a diodydd eraill.
3. Taflwch syniadau gyda'ch gilydd ac annog y disgyblion i ysgrifennu rhai berfau gorchmynnol ar fwrdd gwyn neu glipfwrdd i'w defnyddio yn eu ryseitiau.
4. Mewn parau, heriwch y disgyblion i ddweud eu rysáit wrth eu partner a gweld oes posib ei ddilyn a chreu'r pastai.
5. Rhowch gyfle i'r parau gyfnewid rôl fel bod pawb yn cael dweud rysáit a dilyn un.

## Canlyniadau a Awgrymir ar gyfer Dysgu a Chwarae

Rydyn ni'n deall y byddwch chi, fel addysgwr, yn teilwra'r gweithgaredd yma i anghenion dysgu eich myfyrwyr. Dyma rai o'r canlyniadau dysgu y mae ymarferyddion eraill wedi defnyddio'r gweithgaredd yma ar gyfer eu cyrraedd.

- Dilyn a deall testun cyfarwyddiadol.
- Defnyddio ac adnabod berfau gorchmynnol.

Isod, rydyn ni wedi cynnwys rhai syniadau y mae addysgwyr eraill wedi'u defnyddio ar y cyd â'r gweithgaredd yma i bontio'r bwlch rhwng y tu mewn a'r awyr agored ar gyfer eu myfyrwyr.

| Maes pwnc | Testun | Syniadau ar gyfer Archwilio Pellach |
|---|---|---|
| Llythrennedd ac Iaith | Testunau cyfarwyddiadol | Tynnu sylw at yr holl ferfau gorchmynnol yn y ryseitiau |
| | | Ychwanegu geiriau amser at y rysáit |
| Cerddoriaeth | Rhythmau a synau | Archwilio onomatopoeia a chreu sain neu rythm ar gyfer pob berf gorchmynnol yn y rysáit |
| Drama | Chwarae rôl | Cyflwyno rhaglen goginio ac arddangos sut i wneud diod neu bastai mwd |
| Mathemateg | Mesur | Herio'r disgyblion i ychwanegu a defnyddio mesuriadau manwl gywir yn eu rysáit |
| Gwyddoniaeth | Deunyddiau/ Cyflwr mater | Profi nodweddion deunyddiau a beth sy'n digwydd pan maen nhw'n cael eu cymysgu gyda'i gilydd neu eu cynhesu gan yr haul |
| Hanes | Traddodiadau dros amser | Ymchwilio i hanes diodydd difyr mewn gwahanol gyfnodau o amser a'u pwysigrwydd i fodau dynol |

Learning through Landscapes

Os hoffech chi ddatblygu eich gwybodaeth a'ch sgiliau dysgu awyr agored, edrychwch ar ein hamrywiaeth ni o gyrsiau hyfforddi: ltl.org.uk/outdoor-learning-training

© Mae'r daflen weithgarwch yma wedi cael ei chreu gan Ymddiriedolaeth Learning through Landscapes. Elusen gofrestredig yng Nghymru a Lloegr rhif 803270 ac yn yr Alban SCO38890